# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_16_04_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Elin Jones** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Pwyllgor. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

2.1 P-04-469 Dileu'r Cap Rhanbarthol ar Brisiau mewn Perthynas â'r Cynllun Hawl i Brynu

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

2.2 P-04-470 Yn erbyn gwladoli Maes Awyr Caerdydd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ei farn ar y ddeiseb ac i ofyn pryd bydd yr achos busnes a'r gwaith diwydrwydd dyladwy ar gael.

2.3 P-04-471 Deddfwriaeth Orfodol i Sicrhau Bod Diffibrilwyr ar Gael ym Mhob Man Cyhoeddus

2.3 Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru;
- Heddluoedd Cymru;
- Un Llais Cymru; a
- Chonsortiwm Manwerthu Prydain i ofyn am eu barn ar y ddeiseb.

2.4 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn am ei farn ar y ddeiseb; a
- chlywed tystiolaeth lafar.

2.5 P-04-473 Cymorth Ariannol ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ffermydd Gwynt

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Tai ac Adfywio; a
- Chyngor Sir Powys i ofyn am eu barn ar y ddeiseb.

Gwnaeth y Cadeirydd a Russell George ddatganiad o fuddiant fel Cynghorwyr Cyngor Sir Powys.

2.6 P-04-474 Cefnogaeth i wasanaethau caplaniaeth y GIG

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- grwpio'r ddeiseb gyda P-04-457, gan nodi bod y ddwy ddeiseb yn dadlau i'r gwrthwyneb i'w gilydd;
- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei hysbysu am y ddeiseb ac i ofyn am ei farn ar y posibilrwydd o ymestyn gwasanaethau caplaniaeth i ganolfannau gofal eraill; a
- chymryd tystiolaeth lafar.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-04-421 Rhwystro Trident rhag dod i Gymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb ac, o ganlyniad i ddatganiad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU nad oes unrhyw ystyriaeth wedi'i roi i symud Trident, cytunodd i gau'r ddeiseb.

3.2 P-04-366 Cau canolfan ddydd Aberystwyth

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Ceredigion i ofyn a allai'r Cabinet rannu casgliadau'r adolygiad annibynnol â'r Pwyllgor, a nodi pa gamau gweithredu fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad i'r adolygiad.

3.3 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlygu pryderon BEAT Cymru a'r deisebydd;
- Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta i ofyn am ei barn ar y ddeiseb; ac
- yn ddibynnol ar gapasiti, clywed tystiolaeth lafar, o bosibl.

3.4 P-04-413 Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghwm Cynon

Ystyriodd y pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y deisebydd ar yr ohebiaeth gan Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

3.5 P-04-448 Gwella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ofyn am ragor o fanylion ar amserlen yr adolygiad gwasanaethau iechyd rhywiol; ac
- ailedrych ar y ddeiseb ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau i ystyried y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro.

3.6 P-04-449 Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr - Achub ein Gwasanaethau - Atal yr Israddio!

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn y deisebydd ar yr ohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; ac
- aros am gyhoeddiad y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer De Cymru.

3.7 P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ymgymryd â rhagor o waith ar y ddeiseb os na fyddai'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn gwneud hynny;
- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlygu'r problemau sy'n wynebu'r deisebydd a'r anawsterau a nodwyd gan Gyngor Caerffili; ac
- ysgrifennu at Gyngor Caerffili gyda mwy o fanylion am achos y deisebydd.

3.8 P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- grwpio'r ddeiseb gyda P-04-474;
- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlygu'r problemau sy'n wynebu'r deisebydd a gofyn a yw ei farn yn wahanol i farn ei ragflaenydd;
- ysgrifennu at Gonffederasiwn y GIG i ofyn am ei farn ar y ddeiseb a gofyn a ŵyr am unrhyw ddata ynghylch y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau caplaniaeth; a
- chlywed tystiolaeth lafar.

3.9 P-04-418 Enwi'r A470 yn - Brif Ffordd Tywysog Owain Glyndŵr

O ganlyniad i ddiffyg ymateb gan y deisebydd cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

3.10 P-04-435 Gweithredu Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau 2018 ar Sail Ddi-ddifidend

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn y deisebydd ar yr ohebiaeth weinidogol; ac
- ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'w hysbysu am y ddeiseb.

3.11 P-04-446 Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am benderfyniad y Gweinidog.

3.12 P-04-441 Gwaith i Gymru - Work for Wales

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- ColegauCymru;
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru; a
- Gyrfaoedd Cymru i ofyn am eu barn ar y ddeiseb.

3.13 P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i amlygu pryderon y deisebydd nad oedd ei ohebiaeth yn mynd i'r afael â phwynt cyntaf y ddeiseb.

3.14 P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion - lle sy'n cael ei rannu

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros tan i'r Pwyllgor Menter a Busnes orffen ystyried Bil Teithio Llesol (Cymru).

3.15 P-04-447 Ymgyrch am Gerflun o Harri'r Seithfed ym Mhenfro

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Ymddiriedolaeth Castell Penfro a Chyngor Tref Penfro i ofyn am eu barn ar y ddeiseb; a'r
- Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ofyn am ragor o wybodaeth am y Cynlluniau Dehongli ar gyfer y Canol Oesoedd hwyrach.

3.16 P-04-344 Carthffos gyhoeddus yn Freshwater East

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb ac am fod nodau'r ddeiseb wedi'u cyflawni cytunodd i gau'r ddeiseb.

3.17 P-04-406 Yn erbyn Safle yng Ngogledd Cymru yn y Cynllun Parthau Cadwraeth Morol

3.18 P-04-411 Deiseb yn Erbyn Parthau Cadwraeth Morol yn Sir Benfro

3.19 P-04-415 Cefnogaeth am Bennu Parthau Cadwraeth Morol Lefel Gwarchodaeth Uchel

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- rannu ymatebion y deisebydd â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, gan amlygu bod gan y ddwy ochr bryderon sylweddol ynghylch y broses ymgynghori, ac i ofyn pa wersi sydd wedi'u dysgu ar gyfer ymarferion ymgynghori yn y dyfodol; ac
- aros am gasgliadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Barthau Cadwraeth Morol.

3.20 P-04-419 Moratoriwm ar Ddatblygu Ffermydd Gwynt

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio yn rhannu gwybodaeth y deisebydd a gofyn a ellir ystyried y materion sydd wedi'u hamlygu.

3.21 P-04-428 Ynni amgen ar gyfer goleuadau stryd

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y deisebydd ar ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.22 P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn amlygu pryderon y Cyngor ynghylch y cynllun ffordd gyswllt; ac
- y Gweinidog Tai ac Adfywio yn gofyn sut bydd y fframwaith adfywio newydd yn cynorthwyo â datblygu gwelliannau, fel y rhai y mae galw amdanynt yn Abergwaun.